**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL EOC 03-03(p5)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 20 Mawrth 2003 |
| **Amser:** | 9.15am |
| **Lleoliad:** | Ystafelloedd Pwyllgora 3 & 4 |
| **Teitl:** | Y Gweithgor ar Gyflogau Cyfartal: Adroddiad Interim |

**CYMRU YN ARWAIN Y FFORDD: YMGYRCH CAU'R BWLCH CYFLOG**

**MAWRTH 2002 - MAWRTH 2003**

**Cyflwyniad**

1. Mae Cymru yn arwain y ffordd mewn perthynas â chyflog cyfartal ledled y DU, yn ôl yr Adran dros Fasnach a Diwydiant, papur newydd yr Observer a chylchgronau cydraddoldeb arbenigol megis yr Equal Opportunities Review. Dangoswyd diddordeb yn y strategaeth sydd ar waith yng Nghymru, nid yn unig gan Lywodraethau'r DU a'r Alban, ond hefyd gan Lywodraethau Canada ac Awstralia.
2. Mae'r papur hwn yn rhoi disgrifiad o'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â chyflog cyfartal yng Nghymru ers lansio Cau'r Bwlch Cyflog ym mis Mawrth 2002. Mae hefyd yn nodi'r holl waith sydd angen ei wneud os ydym am leihau'r bwlch cyflog. Ceir argymhellion ar strategaethau'r ymgyrch ar gyfer y dyfodol ym Mhapur 2 o'r Cydweithgor ar Gyflog Cyfartal.
3. Ceir cronoleg o holl weithgareddau'r ymgyrch ynghlwm (Atodiad 2) a bydd adroddiad gwerthuso cyflawn ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

**Y Cefndir**

4. Yn ystod haf 2001 cafwyd cytundeb i sefydlu ymgyrch bartneriaeth er mwyn mynd i'r afael â chyflogau anghyfartal yng Nghymru. Y partneriaid yn yr ymgyrch oedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC), y Comisiwn Cyfle Cyfartal (EOC) a TUC Cymru (TUCC). Cytunodd y partneriaid ar Gynllun Gweithredu ar y cyd a fyddai'n eu hymrwymo i gyfres o dasgau a fyddai, ar ôl eu cyflawni, yn cynrychioli cynnydd sylweddol yn y gwaith o leihau'r bwlch cyflogau rhwng y rhywiau yng Nghymru. Amgaeir copi yn Atodiad 2.
5. Ym mis Hydref 2001, pan gytunwyd ar y Cynllun Gweithredu ar y Cyd, yr oedd y tâl wrth yr awr i fenywod oedd yn gweithio llawnamser yng Nghymru ar gyfartaledd 13% yn llai na'r hyn a delir i ddynion. Yr oedd y bwlch yn cynyddu i 36% ar gyfer menywod mewn gwaith rhan-amser. Erbyn yr hydref 2002 yr oedd y bwlch llawnamser yn parhau yn 13% a'r bwlch rhan-amser wedi lleihau i 33%. Ni fydd yr ystadegau ar gyfer yr

ymgyrch gyfan ar gael tan 2004. Mae'n werth nodi bod bwlch cyflog Prydain Fawr wedi

ehangu yn ystod 2002 o 18% i 19%. Dywed Incomes Data Services mai'r rheswm dros hynny yw'r codiadau cyflog a roddwyd i'r dynion hynny sydd eisoes yn ennill cyflogau uchel.

6. Bwriad y Cyd-weithgor oedd mynd i'r afael â'r tri prif achos a nodwyd gan ymchwil a wnaed gan yr EOC, oedd y tu ôl i'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, sef:

- gwahaniaethu yn y systemau cyflog
- ymwahaniad o ran swyddi
- effaith anghyfartal cyfrifoldebau teuluol

1. Ers lansio ymgyrch Cau'r Bwlch Cyflog, ym mis Mawrth 2002, yr amcan sylfaenol oedd mynd i'r afael â gwahaniaethu yn y systemau cyflog oherwydd nodwyd mai dyma'r achos pennaf y tu ôl i'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Yr oedd angen i'r ymgyrch godi ymwybyddiaeth am y bwlch yn y cyflogau a sicrhau ymrwymiadau oddi wrth gyflogwyr eu bod yn bwriadu mynd i'r afael ag adolygiadau o gyflogau. Daeth hwn yn ganolbwynt y gwaith drwy gydol yr ymgyrch.
2. Yn ogystal, cynhaliwyd rhai gweithgareddau ym myd addysg er mwyn annog plant i ddewis pynciau a gyrfaoedd nad oeddent yn cael eu hystyried yn rhai traddodiadol ac er mwyn codi ymwybyddiaeth o gyflogau cyfartal ymysg myfyrwyr.
3. Dyrannwyd cyllideb o £75,000 i'r ymgyrch, o dan ofal Uned Polisi Cydraddoldeb y Cynulliad. Cyfrannodd y Comisiwn Cyfle Cyfartal a TUC Cymru arian ac adnoddau ychwanegol ar gyfer mentrau penodol o fewn yr ymgyrch.
4. Penodwyd Cyd-weithgor gan Bwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad i reoli'r ymgyrch. Gweithgor o aelodau pob plaid yw hwn gyda David Melding AC yn Gadeirydd a Eleanor Burnham AC, Ann Jones AC, a Helen Mary Jones AC yn aelodau ynghyd â chynrychiolwyr o'r Comisiwn Cyfle Cyfartal, TUC Cymru a'r Uned Cydraddoldeb Polisi.

**Hynt y Cynllun Gweithredu ar y Cyd.**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

5. Yr oedd y dull o weithredu tuag at gau'r bwlch cyflogau yng Nghymru yn wahanol i bob man arall oherwydd un agwedd sylfaenol. Yr oedd y Cynulliad yn benderfynol o fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb o fewn system gyflogau ei staff ei hunan a thu hwnt i hynny gyda'r cyrff a noddir ac a ariennir ganddo. Y mae canllawiau cylch gorchwyl 2001 ar gyflogau i Gyrff a Noddir gan y Cynulliad yn nodi:

*"The Assembly has already stated our intent to take the lead on promoting equal pay through its own arrangements and those of its funded bodies. We are committed to meeting the recommendations of the Equal Pay Task Force whose report was presented to the Equal Opportunities Committee in February 2001. For this year's pay round all*

*bodies will be expected to undertake a full equality audit in advance of formal pay negotiations, the terms of reference will be jointly agreed with the trade unions."*

Yr oedd penderfyniad y Cynulliad i gael trefn ar ei weithdrefn ei hun yn sail i weddill yr ymgyrch.

**Cyrff a Noddir ac a Ariennir gan y Cynulliad**

6. Gwnaeth y Cyrff a Noddir gan y Cynulliad ail strwythuro'u systemau cyflog yn ystod 2001 i gau unrhyw fylchau cyflog rhwng y rhywiau, gan orfodi cytundebau cyflog aml-flwyddyn. Byddant yn cael eu hadolygu cyn cylch cyflog 2004 i weld os oes angen gwneud mwy i gau'r bwlch cyflog. Efallai bydd angen mynd i'r afael â gwerth cyfartal a materion yn ymwneud ag ymwahaniad o ran swyddi yn fwy trylwyr yn y cyd-destun hwn. Bydd angen sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau cyn 2004.
7. Trefnodd y Cynulliad Cenedlaethol a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal dri seminar sector cyhoeddus ar gyfer y sectorau GIG, Addysg Uwch a Llywodraeth Leol. Cyfrannodd y Comisiwn Cyfle Cyfartal o ran cynnwys a siaradwyr. Yr oedd y presenoldeb yn dda a dangoswyd gan y rhai a fu'n bresennol ar y ffurflenni gwerthuso bod y seminarau wedi profi'n ddefnyddiol iawn wrth fynd i'r afael â'r agenda hon. Mae'r sectorau'n rhagweld y byddant yn rhoi cynlluniau gwerthuso swyddi ar waith a'u bod yn bwriadu mynd i'r afael â chyflog cyfartal yn y flwyddyn nesaf. Bydd y gwaith yn cynnwys cydweithio'n agos â chyflogwyr a'r undebau, cynnig arbenigedd a chymorth a chyd-gysylltu'r canlyniadau.
8. Yn seminar y GIG gwnaeth y cyflogwyr godi materion yn ymwneud ag ymwahaniad o ran swyddi a chael gafael ar ofal plant. Dylid mynd i'r afael â'r materion hyn ochr yn ochr â chyflog cyfartal er mwyn helpu i ddatrys y problemau recriwtio a chadw staff sydd gan y GIG yng Nghymru.
9. Lansiodd y Cynulliad a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal ymgyrch ar y cyd yng Nghymru i fynd i'r afael ag ymwahaniad o ran swyddi drwy gyhoeddi pecyn yn annog plant i ddewis pynciau a gyrfaoedd nad oeddent yn cael eu hystyried yn rhai traddodiadol. Anelwyd y pecyn at blant 13-16 oed a chanolbwyntiodd ar y deunydd addysgu o fewn y cwricwlwm Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Cafodd y pecyn groeso gan athrawon a chynghorwyr gyrfaoedd. Nodwyd gan y cynghorwyr bryderon ynghylch y dewisiadau yng Nghymru o ran gyrfa a chefnogwyd hyn gan nifer o gyflogwyr yn yr Ymgyrch Cau'r Bwlch Cyflog. Gofynnodd y cyflogwyr am gymorth i fynd i'r afael ag ymwahaniad o ran swyddi fel cam hanfodol ar gyfer sicrhau cyflog cyfartal. Dylid ystyried hwn yn rhan o'r strategaeth hirdymor ar gyfer yr ymgyrch.

**Datblygu Economaidd yng Nghymru**

10. Blaenoriaeth yr ymgyrch oedd gwella delwedd cyflog cyfartal ymhlith cyflogwyr, yr undebau llafur a'r cyhoedd yng Nghymru yn gyffredinol. Yn anad dim, roedd angen perswadio cyflogwyr i gynnal adolygiadau cyflog a'r undebau i roi cyflog cyfartal ar frig yr agenda fargeinio.

11. Datblygwyd cyfres o ddeunyddiau ymgyrchu i ddarbwyllo cyflogwyr bod achos busnes dros gyflog cyfartal. Canolbwynt hwn oedd cyflwyniad fideo 11 munud yn dangos cyflogwyr y bu'n rhaid iddynt fynd i'r afael â materion cyflog cyfartal ac a allai felly egluro'r manteision i fusnesau. Rhoddwyd y cyflwyniad fideo a'r deunyddiau ychwanegol ar CD a oedd yn addas ar gyfer y rhan fwyaf o gyfrifiaduron byd busnes. Cafodd y CD-Rom ei ddosbarthu i dros 1000 o gyflogwyr yng Nghymru. Hefyd, gofynnwyd am y CD gan bobl o fannau eraill yn y DU. Mae'n parhau'n berthnasol ac mae'n addas i'w ddefnyddio yn yr ymgyrch.

12. Yn ystod yr ymgyrch, cyhoeddwyd canllawiau i gyflogwyr ynghylch sut i gynnal adolygiad cyflog. Lluniwyd canllaw cam-wrth-gam neu becyn adolygu cyflogau ar gyfer y busnesau mwyaf yn y sector cyhoeddus a phreifat. Cafodd pecyn arloesol ar gyfer busnesau bach ei ddatblygu a'i dreialu yng Nghymru gyda'r WDA a chaiff ei lansio ym mis Mawrth 2003. Mae'r pecyn wedi cael ei saernïo'n benodol ar gyfer y sector busnesau bach, gan gydnabod y cyfyngiadau sy'n wynebu nifer o'r busnesau bach o safbwynt adnoddau. Yn y pecyn bydd CD-Rom gyda meddalwedd i helpu'r sector hwn i wella systemau'r gyflogres a rheoli busnes. Mae'r adborth a gafwyd o'r cynlluniau peilot yng Nghymru wedi bod yn gadarnhaol dros ben. Bydd angen strategaeth sy'n cwmpasu sawl asiantaeth i sicrhau bod y sector busnesau bach yn gwybod am y pecyn ac yn medru ei ddefnyddio'n effeithiol.

13. Erbyn hyn, sefydlwyd cydgysylltiad effeithiol gyda'r CBI, yr FSB a'r Siambr Fasnach. Bydd y cyfryw gydgysylltu yn hanfodol i sicrhau bod y pecynnau adolygu cyflog yn cyrraedd y cyflogwyr. Hyd yma, ni chynhaliwyd rhyw nifer fawr o adolygiadau cyflog yn y sector preifat. Erbyn hyn, mae'r ymgyrch mewn sefyllfa dda i ymwneud yn effeithiol â busnesau yng Nghymru. Mae hwn yn faes y mae angen parhau ag ef, a dylai fod yn un o flaenoriaethau'r ymgyrch. Bydd angen cydlyniad, cymorth ac arbenigedd i symud ymlaen â chyflog cyfartal yn y sector hwn.

14. Bydd y gwaith gyda busnesau mawr a bach ar gyflog cyfartal yn helpu gyda strategaeth y Cynulliad, 'Cymru'n Ennill', a datblygiad economaidd ehangach yng Nghymru. Bydd yn sicrhau bod busnesau yng Nghymru yn cydymffurfio â'r gyfraith ac yn adolygu eu gweithdrefnau ariannol. Felly, byddant mewn gwell sefyllfa i oroesi a ffynnu, a thrwy hynny ddiogelu swyddi a chyfrannu at yr economi.

15. O'r dechrau'n deg, cydnabu partneriaid yr ymgyrch y byddai rhannu arfer gorau rhwng cyflogwyr yn bwysig iawn. Y ffordd orau o wneud hyn fyddai trwy gysylltiad rhwng un busnes a'r llall. Yng Nghymru, gwelwyd bod rhannu arfer gorau o fewn sectorau yn fuddiol. Bu cyflogwyr a oedd, gyda'i gilydd, â mwy na 300,000 o staff, yn bresennol mewn seminar yn y sector gyllid gyda'r undeb llafur perthnasol, yr UNFI. Canlyniad y seminar oedd ymrwymiad gan bob ochr i ffurfio fforwm parhaus ar gyflog cyfartal, a fyddai hefyd yn cynnwys y sector yswiriant ac undeb llafur y sector hwnnw, sef AMICUS-

MSF. Mae angen clustnodi adnoddau i gynorthwyo a rhoi arbenigedd i'r Fforwm.

16. Trefnodd TUC Cymru sesiynau briffio ar gyflog cyfartal ar gyfer swyddogion llawnamser yr undeb a chyrsiau hyfforddiant ar gyfer cynrychiolwyr yr undeb yn y gweithle. Bu'r gwahanol undebau llafur yn gweithio gyda'r ymgyrch a chyflogwyr i lunio cytundebau partneriaeth ar gynnal adolygiadau cyflog cyfartal. Mae'r gwaith hwn ar y gweill.

17. Yn ystod yr ymgyrch cafodd 300 o gyflogwyr wybodaeth neu gyflwyniadau am gyflog cyfartal. Bu dros 400 o swyddogion undebau llafur hefyd yn bresennol yn y sesiynau briffio. Mae dros 20 o gyflogwyr wedi cwblhau adolygiadau cyflog yn y sector cyhoeddus. Ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn rhoi cyngor i lu o gyflogwyr yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ar sut i ddechrau adolygiadau cyflog cyfartal.

**Ymwybyddiaeth Gyffredinol**

18. O ran ymwybyddiaeth gyffredinol, mae'r ymgyrch wedi bod yn llwyddiannus dros ben o ran ennyn cyhoeddusrwydd ac mae wedi cael sylw helaeth yn y cyfryngau yn Gymraeg a Saesneg. Yng Nghymru, mae'r sylw yn y cyfryngau wedi bod ar y teledu, ar orsafoedd radio cyhoeddus a masnachol ac yn y wasg leol a chenedlaethol. Mae sawl digwyddiad a datganiad i'r wasg wedi cael sylw tu hwnt i Gymru yng ngwasg y DU a chylchgronau arbenigol.

19. Mae rhai mentrau gwella ymwybyddiaeth wedi cael eu hanelu at unigolion. Bydd hysbysebion ar fysiau yn cynghori'r cyhoedd i gysylltu â llinell gyngor y Pwyllgor Cyfle Cyfartal am fwy o wybodaeth am gyflog cyfartal. Bydd yr hysbysebion hyn yn cael eu codi ar 62 o fysiau mewn pum tref a dinas yng Nghymru yn ystod mis Chwefror a Mawrth. Mae taflenni cynghori yn cael eu dosbarthu i bob canolfan Cyngor ar Bopeth a llyfrgell gyhoeddus yng Nghymru i annog pobl i gael gwybod mwy am eu hawl i gyfle cyfartal.

20. Mae stondinau arddangosfeydd teithiol Cau'r Bwlch Cyflog, a thaflenni, CD's a deunyddiau hyrwyddo wedi bod ar gael mewn arddangosfeydd masnach a busnes, Eisteddfodau a digwyddiadau cyhoeddus eraill.

21. Ym mis Mai 2002, lansiodd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ymgyrch yng Nghymru i roi gwybod i fyfyrwyr am gyfle cyfartal ac am y bwlch o 15% sy'n agor rhwng cyflogau dynion a menywod cyn pen tair blynedd ar ôl iddynt raddio. Roedd yr ymgyrch hon mewn partneriaeth ag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yn gyfle i swyddogion ar gyfnod sabothol ddosbarthu taflenni, posteri, sticeri ac ati o gwmpas undebau myfyrwyr ac mewn ffeiriau gyrfaoedd.

**Strategaeth ar gyfer y Dyfodol**

22. Mae'r ymgyrch cyflog cyfartal wrth wraidd agenda'r Cynulliad o ran ei gallu i fynd i'r afael â thlodi a helpu cynhwysiant cymdeithasol ac adfywio economaidd.

23. Mae partneriaid yr ymgyrch wedi gwneud dechrau da ar dasgau'r Cyd-Gynllun Gweithredu. Mae nifer fawr o dasgau wedi cael eu cwblhau ac mae'r ymgyrch wedi

cadw o fewn ei chyllideb wreiddiol. Serch hynny, mae llawer o waith eto i'w wneud. Nid yw hyn yn syndod mawr o ystyried hyd a lled y Cyd-Gynllun Gweithredu a'r amserlen dynn, sef blwyddyn yn unig. Mae angen i ni barhau i ymgyrchu ar hyn os ydym i wneud y gorau o ymdrechion y flwyddyn gyntaf. Rydym wedi gwella ymwybyddiaeth gyffredinol ymhlith cyflogwyr, yr undebau llafur a'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae angen adeiladu ar hyn i wireddu cyflog cyfartal yng Nghymru.

24. Dylem barhau i helpu'r sector cyhoeddus trwy roi cyngor ar gyfle cyfartal yn y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a thrwy gefnogi'r GIG, Addysg Uwch a sectorau Llywodraeth Leol i weithredu cynlluniau gwerthuso swyddi a mynd i'r afael â'r ymwahaniad o ran swyddi. Lle mae cyflogwyr yn y sector preifat wedi dechrau mynd i'r afael â chyflog cyfartal, dylem barhau i gynnig arbenigedd. Mae'r dull o weithredu ar sail sectorau wedi gweithio'n dda a dylem ddatblygu hyn, yn enwedig ar gyfer y Sector Cyllid.
25. Erbyn hyn mae gennym becynnau adolygu cyflog cyfartal sy'n addas ar gyfer busnesau bach a mawr yn y sector preifat. Mae angen i ni weithio gyda chymdeithasau cyflogwyr i gyrraedd cyflogwyr yn y sector preifat a'u hannog i gynnal adolygiad.
26. Dylai'r ymgyrch barhau i fynd i'r afael â gwahaniaethu yn y systemau cyflog, ond dylem hefyd weithio gyda byd addysg, gyrfaoedd ac asiantaethau hyfforddi i annog pobl i ddewis gyrfaoedd anhraddodiadol a mynd i'r afael â'r bylchau yn y sgiliau.
27. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol ragor o waith i'w wneud ar adolygiadau cyflog ar gyfer ei staff ei hun ac ar gyfer cyrff a noddir gan y Cynulliad ac a ariennir ganddo, ar ystadegau ynghylch y rhywiau ac ar hyblygrwydd rhwng bywyd a gwaith.

Mae argymhellion manwl ynghylch sut i fwrw ymlaen â'r ymgyrch yn y flwyddyn sydd i ddod ym Mhapur 2 y Cyd-Weithgor ar Gyflog Cyfartal. Bydd strategaeth hirdymor ar gyfer yr ymgyrch yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad llawn ar werthuso, sydd i gael ei gyhoeddi yn nes ymlaen eleni.